



DATGANIAD NEWYDDION

RHAGFYR 2020

CORFF GWARCHOD IECHYD YN GOFYN I BOBL I SIARAD AM WASANAETHAU IECHYD MEDDWL

Mae corff gwarchod gwasanaethau iechyd annibynnol Gogledd Cymru - Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) - yn awyddus i glywed gan bobl sydd â phrofiadau o Wasanaethau Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru

Bydd CICGC yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar Zoom yn gwahodd staff y GIG, cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd i siarad am Wasanaethau Iechyd Meddwl. Daeth nifer dda i'r digwyddiad cyntaf a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf ac roedd pobl yn falch bod CICGC wedi rhoi'r cyfle iddynt fynegi eu barn.

Bydd digwyddiadau pellach yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

14 Ionawr 2021 – Oedolion a phroblemau Iechyd Meddwl Gweithredol / Gwasanaethau Seiciatryddol Oedolion

01 Chwefror 2021 - Gofal Iechyd Meddwl Pobl Hyn

04 Chwefror 2021 - CAMHS a Throsoglwyddo i Wasanaethau Oedolion

08 Chwefror 2021 – Anableddau Dysgu

11 Chwefror 2021 – Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Dyweddodd Mr Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog CICGC “Mae hyn yn gyfle i bobl gael dweud eu dweud am ddyfodol gofal iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn cyflwyno profiadau ac awgrymiadau pawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a pholisiau”

Aeth Mr Ryall-Harvey ymlaen i ddweud “Rydym eisiau clywed gan gymaint â phosib am brofiadau o Wasanaethau Iechyd Meddwl ar draws Gogledd Cymru. Bydd y digwyddiadau wedi eu strwythuro o amgylch nifer o agweddau megis canmoliaeth, pryderon a chwynion, cynllunio gofal, darparu gofal a chyfathrebu. Rydym yn deall, ar

rai adegau, mae'n well gan bobl rannu eu profiadau a ni yn gyfrinachol, a byddwn yn sicrhau bod man diogel i hwyluso trafodaethau o'r math"

Os hoffech fynychu unrhyw un o'r digwyddiadau neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru ar y rhif ffôn canlynol: 01248 679284 (*nodwch fod system peiriant ateb ar waith - gadewch neges os gwelwch yn dda a bydd aelod o'n tîm mewn cysylltiad â chi*) neu e-bost yourvoice@waleschc.org.uk

Mae modd i chi hefyd gofrestru eich presenoldeb ar ein ap SurveyMe drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol

<https://svy.at/ryz1g>

UK-E4AS-7EAE



NB Mae cofrestru ar sail cyntaf i'r felin, ond byddwn yn cynnal sesiynau ychwanegol yn ôl yr angen.

Nodyn ar gyfer golygyddion

1. Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIC) yn gorff statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau'r cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Ngogledd Cymru. Daeth i fodolaeth ar y 1af Ebrill 2010 fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n cynnwys siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae poblogaeth gyfun y chwe sir oddeutu 678, 800.
2. Mae gan y Cyngor Iechyd Cymuned chwe phwyllgor lleol, un i bob un o'r chwe sir. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys aelodau o dair ffynhonnell: cynghorwyr a enwebwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, pobl a enwebwyd gan fudiadau yn y sector gwirfoddol lleol a phobl leol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Diwedd